# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 12FED MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***NODER***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 5 Mehefin 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Linda Ann Jones

Gwynfor Owen

Gareth Williams (Eilydd)

## Aelodau Lleol

Y Cynghorwyr Nigel Pickavance a Dylan Fernley

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 6

Bangor Grill Limited, 212 High Street, Bangor, LL57 1NY

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2023** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - BANGOR GRILL, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Bangor Grill Limited , 212 Stryd Fawr , Bangor, LL57 1NY. Mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatáu gwerthiant lluniaeth hwyr y nos gan gynnwys bwyd poeth fel Kebabs, byrgyrs a pizzas , i'w fwyta oddi ar yr eiddo.

1.2 Gofynnir yn y cais am yr hawl i werthu bwyd poeth ar ac oddi ar yr eiddo ar ôl 23:00 yr hwyr , tan 3:30 y bore ar Nos Wener a Nos Sadwrn, tan 3:00 y bore nos Lun a Mercher a tan 2:30 nos Fawrth, Iau a Sul

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Gweithgareddau trwyddedig/ Licensable Activities – darparu lluniaeth hwyr y nos ar ac oddi ar yr eiddo/ provision of late night refreshment on and off the premises** | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 23:00 – 02:30 |
| Dydd Llun/Monday | 23:00 - 03:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 23:00 – 02:30 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 23:00 – 03:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 23:00 - 02:30 |
| Dydd Gwener/Friday | 23:00 – 03:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 23:00 - 03:30 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff ar sut i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
- System TCC safonol a delweddau yn cael eu darparu ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu
- Fe fydd cwsmeriaid sydd yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol yn cael eu gyrru ymaith, ac fe fydd yr Heddlu yn cael eu galw os oes problemau yn parhau
- Bwriedir cyflogi goruchwyliwr drysau i weithredu o hanner nos.
- Ni fydd ymddygiad bygythiol tu mewn na thu allan i'r eiddo yn cael ei oddef.
- Bwriedir gwahardd unrhyw unigolion sydd yn achosi niwsans
- Ni fydd plant yn cael eu caniatáu i mewn i'r eiddo heb oedolyn cyfrifol ar ôl 9 yr hwyr

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | sylwadau |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | E-bost - gwrthwynebu |

**3.1 Sylwadau'r Heddlu**

3.2 Nododd yr Heddlu nad oedd sail tystiolaeth i wrthwynebu ; ond fod yn rhesymol gofyn am bendantrwydd yn yr atodlen weithredol i sicrhau presenoldeb goruchwyliwr drysau o 23:00 ymlaen ar nos Wener a Nos Sadwrn.

**4 Gwrthwynebiad Swyddog Gwarchod y Cyhoedd**

4.1 Cyflwynwyd gwrthwynebiad ar sail y ffaith nad oedd mesurau digonol yn cael eu cynnig gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus

4.2 Nodwyd fod preswylfeydd yn agos i'r eiddo yn y cefn ar Lower Street a fflatiau uwchben y siopau ar y Stryd Fawr ac felly potensial o sŵn yn amharu ar drigolion oherwydd darpariaeth lluniaeth hwyr y nos. Yn benodol, nodwyd fod sustemau echdynnu aer o'r gegin yn gallu fod yn swnllyd iawn hyd at ac ar ôl amser cau yr eiddo. Mynegwyd pryder yn ogystal y byddai sŵn cwsmeriaid yn ymgasglu o gwmpas yr eiddo hefyd yn achosi sŵn ac yn amharu ar drigolion.

4.3 Pwysleisiwyd y ffaith nad oedd yr ymgeisydd wedi cynnig unrhyw fesurau i reoli'r sŵn o'r ffynonellau a nodwyd fel rhan o'r cais, ac mai dyma oedd sail y gwrthwynebiad.

4.4 Nododd y swyddog hefyd fod ymholiadau wedi eu gwneud gyda'r Gwasanaeth Cynllunio parthed statws Cynllunio'r eiddo. Fe dderbyniwyd cadarnhad yn ddiweddarach nad oedd cais newid defnydd wedi ei gyflwyno ar gyfer yr eiddo; ac fod y gwasanaeth Cynllunio yn ystyried camau gorfodaeth.

4.5 Mewn gohebiaeth diweddarach gyda cyfreithiwr yr ymgeisydd ; mae cwestiynau penodol wedi eu hateb o ran y system echdynnu aer. Mae'r ohebiaeth i'w weld yn yr atodiad i'r adroddiad hwn ynghyd a lluniau o'r system awyru. Dylid nodi fod y cyfreithiwr wedi datgan bodlonrwydd yr ymgeisydd i gydweithio gyda'r swyddog Gwarchod y Cyhoeddi gynnwys mesurau ychwanegol i'r hyn sydd yn y cais mewn perthynas a'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus

Gweler manylion llawn yr ohebiaeth a dderbyniwyd parthed yr ymatebion yn yr atodlen i'r adroddiad.

**5 ARGYMHELLIAD**

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i -**

**a) Gydymffurfio gyda gofynion yr Heddlu**

**b) cytundeb gan yr ymgeisydd i gydymffurfio gyda mesurau rheoli niwsans a argymhellir gan Gwarchod y Cyhoedd**

c) **Derbyn caniatâd Cynllunio am newid defnydd a chaniatâd i weithredu o dan unrhyw amodau cynllunio parthed amseroedd agor .**